# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai, 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, B. Durkin, Lewis Davies, Jim Evans, R. A. Dew, T. Ll. Hughes, K. P. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, Rhian Medi, C. McGregor, Bryan Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, G. W. Roberts OBE, P. S. Rogers, E. Schofield, H. W. Thomas, J. P. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddiaeth / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Addysg)<br>Cyfreithiwr (RB)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Swyddog Pwrcasu<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Comisiynwyr M Giannasi a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Keith Evans, D. R. Hughes, Fflur Hughes, Eric Jones, Aled Morris Jones, O. Glyn Jones, Eric Roberts, Ieuan Williams, Selwyn Williams. |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

## 2 CONTRACT TORRI GWAIR

Ar gais 5 Aelod o'r Cyngor Sir (yn unol â rhan 4.1.3.1 o Gyfansoddiad y Cyngor)(y Cynghorwyr D. Rees Hughes, W. T. Hughes, Aled Morris Jones, H. W. Thomas a G. W. Roberts OBE) rhoddwyd ystyriaeth i'r Contract Torri Gwair a ddechreuodd ar 1 Mai 2012.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) ar ran y Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff a'r Gwasanaeth Addysg. Roedd yr adroddiad yn egluro'r cefndir i'r mater, y sefyllfa bresennol, y broses dendro cyn-gymhwyso, y broses dendro a'r canlyniad.

Draft

Pwysleisiodd y Cynghorydd G. W. Roberts OBE, yr Aelod Arweiniol, nad oedd yna unrhyw feirniadaeth o'r modd yr oedd y contract wedi cael ei osod ond roedd yn awyddus i sicrhau i'r dyfodol y byddai busnesau bach ar yr Ynys mewn sefyllfa i dendro'n llwyddiannus am gontractau gyda'r Cyngor a thrwy hynny yn sicrhau gwaith i drethdalwyr lleol.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) y broses o ran tendro am gontractau a dywedodd ei fod wedi'i synnu gyda'r nifer o gwmnïau oedd wedi tendro o'r tu allan i'r Ynys. Rhoddodd fanylion am gwmnïau oedd wedi cael contractau gyda'r Cyngor ac a oedd yn dod o'r tu allan i'r Ynys ond gan gyflogi pobl leol.

Cynigiodd y Cynghorydd John Penri Williams bod y Prif Bwyllgor Sgriwtini'n sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ystyried gwahanol agweddau o osod contractau a sut y gallai'r Cyngor helpu gyda datblygu cwmnïau lleol fel y gallant dendro'n llwyddiannus am gontractau. Eiliodd y Cynghorydd R. Dylan Jones y cynnig.

Yn dilyn trafodaeth bellach ar y gwahanol bryderon ynglŷn â'r broses dendro a gosod contractau, yn cynnwys:-

- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei hanfon i'r holl ysgolion yn rhoi amlinelliad o'u cyfrifoldebau.
- Annog busnesau bach ar yr ynys i weithio gyda'i gilydd fel consortiwm fyddai'n galluogi iddynt dendro am gontractau ar sail gystadleuol.
- Monitro'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y contractwyr er mwyn sicrhau gwerth am arian,

cynigiodd y Cynghorydd Elwyn Schofield welliant sef y dylid gofyn i'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol wneud y gwaith. Gallai'r canfyddiadau wedyn gael eu cyfeirio'n ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer craffu ac wedi hynny i'r Cyngor Sir. Eiliodd y Cynghorydd Gareth Winston Roberts OBE y gwelliant.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau bod y Cyngor ar hyn o bryd yn edrych ar y broses bwrcasu ar lefel gorfforaethol. Bydd nifer o seminarau'n cael eu trefnu i Aelodau a Swyddogion. Roedd hyn oll yn rhan o'r Cynllun Adfer a bydd pwyslais yn cael ei roi ar feysydd risg uchel. Roedd yn credu ei bod yn bwysig bod pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith o sgriwtineiddio'r broses dendro yn cael mandad clir ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir o ran canlyniadau. Dywedodd y Swyddog Monitro mai'r Prif Bwyllgor Sgriwtini fyddai'r Pwyllgor priodol i ymgymryd â'r dasg ac mai hyn fyddai'r defnydd gorau o adnoddau oherwydd mai gan y Tîm Sgriwtini yr oedd yr aelodau staff, y sgiliau ymchwil a'r adnoddau i wneud y gwaith. Byddai eu canfyddiadau'n cael eu hanfon ymlaen i'r Bwrdd Comisiynwyr y byddai unrhyw benderfyniad a wneid gan y Bwrdd yn agored i Sgriwtini.

Derbyniwyd y gwelliant gan yr Aelodau o 14 pleidlais i 6 (gyda 3 yn atal eu pleidlais) ac felly:

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwelliant fel y'i amlinellwyd uchod.**

**CAMAU GWEITHREDU'N codi o'r Penderfyniad:-**

- **Gofyn i'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol:**

Draft

- **Yng nghyswllt contractau yn gyffredinol – i ystyried pob agwedd o'r prosesau tendro, y gweithdrefnau a'r amodau;**

- **Ystyried unrhyw ddulliau cyfreithlon sydd ar gael i helpu busnesau bychan lleol i'w galluogi hwy i fod mewn sefyllfa i dendro ar sail gystadleuol.**

- **I ddechrau trafodaethau gyda chwmnïau lleol er mwyn gallu nodi beth yw'r rhwystrau cyfredol.**

- **I gyfeirio canfyddiadau'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn y lle cyntaf ac wedi hynny i'r Cyngor Sir / Comisiynwyr.**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O. JONES**
**CADEIRYDD**

Drafft